Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.07.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Canllawiau ynghylch dylunio a gweithredu elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Mae'r canllawiau'n amlinellu'n glir gwmpas a gwerth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a sut mae'n cyd-fynd â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.  Credwn eu bod yn rhoi digon o arweiniad i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm addas ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Credwn y gellid cryfhau'r canllawiau ymhellach drwy roi arweiniad ar addysgeg mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Ochr yn ochr â'r canllawiau, credwn ei bod yn bwysig iawn cefnogi dysgu proffesiynol er mwyn i ymarferwyr ddeall cwmpas a diben Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn llawn, o gymharu ag addysg grefyddol ar hyn o bryd.  Credwn hefyd y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi arweiniad ar wahân ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16, yn hytrach na chynnwys adran fach mewn dogfen arweiniad sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr 3 i 16 oed. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Pa mor dda y mae'r canllawiau'n esbonio cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'i gyd-destun ym maes y Dyniaethau?

| Ddim yn dda o gwbl | ☐ | Ddim yn dda | ☐ | Yn dderbyniol | ☐ | Yn dda | ☐ | Yn dda iawn | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb (dim mwy na 250 gair).

| |
|---|
| Mae'r canllawiau'n amlinellu'n glir gwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'i werth i ddysgwyr.  Mae hefyd yn amlinellu'r glir sut mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ffitio i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. |

**Cwestiwn 2** – At ei gilydd, a yw'r canllawiau'n glir ac yn ddefnyddiol i chi yn eich rôl?

| Aneglur iawn | ☐ | Ychydig yn aneglur | ☐ | Nid yw'n glir nac yn aneglur | ☐ | Ychydig yn glir | ☐ | Clir iawn | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

| Nid yw'n berthnasol |
|---|

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau'n cynnig gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo ymarferwyr wrth iddynt ddylunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?

| **Ddim yn berthnasol** | ☐ | **Ychydig yn berthnasol** | ☐ | **Yn gymharol berthnasol** | ☐ | **Yn berthnasol** | ☐ | **Yn berthnasol iawn** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

| Mae adrannau 3, 4 a 5 yn benodol yn rhoi digon o wybodaeth i gynorthwyo ymarferwyr wrth iddynt ddylunio eu cwricwlwm. |
|---|

**Cwestiwn 4** - Wrth feddwl am bob adran yn y canllawiau, ydych chi'n teimlo bod:

- unrhyw fylchau yn y wybodaeth? Os felly, beth ddylid ei ychwanegu?
- unrhyw adrannau sy'n arbennig o ddefnyddiol? Os felly, ym mha ffordd maent yn ddefnyddiol ac i bwy?

| |
|---|

**Cwestiwn 5** – A yw'r canllawiau'n cynnig cymorth digonol i bob ymarferydd i gynllunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?

| Annigonol | ☐ | Braidd yn annigonol | ☐ | Ddim yn annigonol nac yn ddigonol | ☐ | Rhywfaint yn ddigonol | ✓ | Digonol | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

| |
|---|
| Mae digon o gymorth i gynllunio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond nid yw'r canllawiau'n cwmpasu addysgu yn fanwl. Mae'r adran 'Cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' yn ddefnyddiol, ond efallai y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu adran ar addysgeg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. |

**Cwestiwn 6** – A oes angen cymorth ychwanegol (e.e. dysgu proffesiynol ac adnoddau) i sicrhau y caiff y canllawiau hyn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus?

Os oes, rhowch fwy o fanylion.

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

| |
|---|
| Mae'n bwysig iawn bod ymarferwyr yn deall cwmpas a diben Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o gymharu â gofynion cyfredol addysg grefyddol. Mae angen i ymarferwyr fod yn hyderus wrth gynorthwyo dysgwyr i archwilio themâu sensitif neu ddadleuol. Roedd ein hadroddiad thematig, sef 'Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3' (Estyn, 2018) yn cynnwys argymhelliad yn ymwneud â darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i ymarferwyr, yn ogystal â chyngor i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif ac ymweld â mannau addoli. |

**Cwestiwn 7** – Mae'r cwestiwn hwn wedi'i fwriadu ar gyfer awdurdodau lleol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.

A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol i ddatblygu cynadleddau maes llafur cytûn?

| Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ | Ychydig yn ddefnyddiol | ☐ | Rhywfaint yn ddefnyddiol | ☐ | Defnyddiol iawn | ☐ | Defnyddiol dros ben | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol i Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog?

| Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ | Ychydig yn ddefnyddiol | ☐ | Rhywfaint yn ddefnyddiol | ☐ | Defnyddiol iawn | ☐ | Defnyddiol dros ben | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb.

Ddim yn berthnasol

**Cwestiwn 8** – Hoffem wybod eich barn chi am yr effeithiau y byddai'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n credu a allai fod? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Er nad diben y canllawiau hyn yw annog mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ni ddylai arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 9** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gael:

i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Nid oes angen newid y canllawiau. Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r llywodraeth ystyried a oes angen comisiynu adnoddau yn y Gymraeg i gynorthwyo i gyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. |

**Cwestiwn 10 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y bwlch hwn i roi gwybod amdanynt.

| |
|---|
| Mae adran fach ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16. Nid ydym o'r farn y dylid ei chynnwys yn y ddogfen hon, sy'n amlinellu y gofynion cwricwlaidd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddysgwyr 3 i 16 oed. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi arweiniad ar wahân ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16 i bob dysgwr, nid y rhai mewn adrannau chweched dosbarth ysgolion yn unig. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o fod ar gael i'r cyhoedd, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐